| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Ebrill 5ed 2017 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

## 2.0 GWARIANT 2016/17

2.1 **£55,000** oedd yn y Gronfa ar ddechrau 2016/17 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan.

2.2 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys crynodeb o'r prosiectau llwyddiannus.

## 3.0 CYLLIDEB 2017/18

3.1 Cafwyd cadarnhad fod **£55,000** yn y Gronfa ar gyfer 2017/18 ac mae'r gwaith o hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio am y grant eisoes wedi dechrau.

3.2 Anogir yr aelodau i rannu'r wybodaeth uchod am y cyllid sydd ar gael eleni. Yn ogystal â bod ar gael yn y swyddfa am drafodaeth bellach, bydd staff y Gwasanaeth AHNE yn bresennol yn Ras Aredig Sarn a'r Cylch (Mai 6ed) ac yn Sioe Tudweiliog (Awst 12fed) gyda stondin wybodaeth.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth uchod am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.